

Glaw

“Dyna oedd ‘Happy when it rains’ gan ‘The Jesus and Mary Chain’. Heno mae gennym ni ddigonedd mwy o ganeuon wedi’i paratoi ar gyfer eich taith adre’ o’r gwaith. Mae’r ffyrdd yn llithrig heno ma’ achos o yr glaw uffernol – gyrrwch yn ofalus! Dyw’r glaw ddim am stopio yn fuan chwaith, mae’n edrych fel petai hi ddim ond yn mynd yn waeth o fa’ ‘ma. Felly mwynhewch y caneuon sy’n barod ar eich gyfer. Nesaf, yw ‘Rain Tapestry’ gan ‘Lamp’. Mi welwn i chi’n fua-”

Rwy’n taro’r radio gyda gwaelod fy llaw. Mae’n hen gar beth bynnag – dwisio cael gwared ohono mor fuan a phosib. Ond am rwan rydw i’n sownd gyda fo. Tan imi gael swydd ddechre hynny yw... Mae’r radio yn canu nid gyda cân swynol ond statig ffyrnig a chyson. Mae’r glaw ‘ma yn difetha fy niwrnod. Mae’r ffordd yn wlyb a dydy’r sychwyr ffenest ddim yn gwneud dim i helpu faint dwi’n gallu gweld lle dwi’n mynd. Ton ar ôl ton mae’r glaw yn taro y ffenestri. A gwaeth fyth dwi dros awr i ffwrdd o fod adre’. Pam oedd yn rhai imi gael swydd mor bell o fy fflat fi? Mae’n rhy hwyr i fod yn grac am bethau fel hynne rwan.

Dwi wedi cael llond bol o law. Falle dylwn i ‘di symud i rhywle fel Awstralia neu Sbaen cyn oedd hi’n rhy hwyr – dwi mewn yn rhy ddwfn ‘wan i droi nôl... a dwi’n cychwyn meddwl hynny am y daith yma hefyd. Mae’n llawer rhy beryglys imi fod yn dreifio yn hwn! Byswn i heb adael os oeddwn i’n gwybod fyddai’r awyr yn bwro’r glaw arnon fel bwledi. Hoffwn fod yn saff adre’ gyda mwg o ‘coco’ yn fy llaw a blanced cynnes am fy nglin.

Yn sydyn mae unrhyw ddarn o’r daith sy’n iawn yn diflannu. Mae fy nghorff yn troi i garreg, dydw i ddim yn gwybod beth i’w wneud – mae sychwyr y ffenest wedi stopio gweithio! Mewn panig, gyda llaw yn crynu fel petai fy mod wedi cymryd ‘shot’ cryf o ‘espresso’, dwi’n trio’r swits sychwyr ffenestri drosodd a drosodd ond does dim gobaith. Mae’r glaw yn gorchuddio y ffenest yn gadael dim amser i weld llawer. Yn lwcus mae’r ffyrdd yn dawel iawn lle dwi, a mae’r llygaid cathod a’r arwyddion yn helpu imi weld lle dwi’n mynd. Dwi angen ffeindio rhywle i dynnu drosodd mor gyflym a phosib. Ffordd gyda gwrychoedd heb ddim un deilen a choed yn chwythu yn aflonydd yn y gwynt ydw i – ffordd dwi’n dilyn bob diwrnod i ac yn ôl o’r gwaith. Mae gilfan ar y dde rhywle os dwi’n cofio’n gywir. Dwi’n gweld o! Mae goleuadau fy nghar yn disgleirio’n llachar ar y giât wrth y gilfan, yn gweithio fel goleufa i arwain fi at lle saff. Yn araf, dwi’n tynnu mewn i ochr y ffordd ac yna yn troi’r injan i ffwrdd. Be ‘dwi am wneud wan? Mae’r glaw yn curo ar dô’r car, a dydw i ddim yn gallu helpu ond teimlo ychydig o ofn yn eistedd yn y tywyllwch. I wneud imi deimlo’n llai unig dwi’n troi’r radio ymlaen, ond heb fawr o syndod yr unig swn a ddaw allan ohono yw’r hymian tawel statig.

Yn diffodd y radio, mae’r tawelwch sy’n llenwi’r car yn gwneud i’r aer deimlo’n oer, gan nad oes cysur yno. Yr unig ffrind sydd gennai yw’r glaw sy’n tarannu ar fetal y car – mae’n swnio fel petai rhywun yn arllwys bag enfawr, anfeidrol o bys wedi’u rhewi lawr arnaf. Llenwa’r sŵn fy ‘menydd, fel mae’r sŵn yn llenwi’r car, ac nid ydw i’n gallu meddwl yn glir. Fel petai rhywun yn gwrando arnaf, mae’r glaw yn stopio ar unwaith, felpetai rhywun wedi gwasgu botwm. Dim ond glaw andros o ysgafn sy’n diferu o’r awyr.

Dwi’n eistedd yn sedd y gyrrwr am funud, yn gwrando ar y distawrwydd. Bron i fi feddwl ‘dwi bron a methu swn y glaw’, ond rhag ofn bod rhywun wir yn gallu darllen fy meddyliau a rheoli’r tywydd, dwi’n stopio fy hun. Felly yn lle, dwi’n meddwl; ‘dwi angen mynd adre’ cyn i’r glaw gychwyn eto’.

Gyda fy nghorff llawn tyndra fel weiren a fy llaw chwith yn dal ymlaen i'r llyw fel petai dim yfory, dwi'n tanio'r injan ac yn paratoi fy hun am hanner awr erchyll cyn cyrraedd adre'.

Unwaith dwi ar y ffordd ddisglair wlyb, dwi'n teimlo'n saffach – yn enwedig nawr fod y glaw wedi rhoi diwedd ar fy mhoenydio. Mae'r awyr uwchben yn las trydanol tywyll gyda'r cymylau trwchus du yn symud yn ymrithiol. Mae storm ar y ffordd, mae'n siwr. Caiff y dŵr ar y ffordd ei amlygu gyda golau'r lleuad llawn yn tywynnu bobman. Mae popeth mor hamddenol – y tawelwch cyn y storm.

O'r diwedd dwi'n cael fy nghroesawu gan fy nrws ffrynt. Erbyn rwan mae'r lleuad wedi cuddio tu nôl i gwmwl enfawr, maleisus, fel petai o ei hun yn ofnus o'r storm sydd bendant ar ei ffordd. Ond dwi'n barod. Yn camu i fewn i'r ty distaw, oer dwi'n diosg fy sgidiau a fy nghôt ac yn cerdded i'r gegin. Dwi'n mynd dros y cynllun ddyfeisiais yn fy mhen ar y ffordd adref a chychwynaf gyda cham un; berwi'r tegell. Er fy mod i'n byw ar ben fy hun, dwi'n berwi digonedd o ddŵr ar gyfer tair cwpaned o de neu 'hot chocolate'. Mae'n rhaid cadw'n gynnes ynde? Tra mae'r tegell yn hisian ac yn byblan gyda'r dwr sy'n berwi, dwi'n cerdded i'r stafell fyw. Pengliniaf i lawr wrth y lle tân a dwi'n cynnau tân sy'n dawnsio'n ddireidus, yn llychio'i golau ar y waliau plaen yn y stafell tywyll. Tra dwi'n cynhesu fy nwylo wrth y tân, clywaf y glaw yn cychwyn unwaith eto. Dydw i erioed wedi hoffi'r glaw, ac yn enwedig ar ôl y daith ofnadwy heddiw, synnaf fy hun gyda'r wên fach sy'n crwydro i fy ngwefusau pan gychwyna'r glaw daro'n galed ar y to. Codaf o le roeddwn wedi'i penlinio - y cam nesaf i wneud yw i greu ffau bach o flancedi ar y soffa i aros yn gynnes ynddo.

Yn ddigon buan mae'r ty wedi cynhesu ac mae'r stafell fyw wedi troi mewn i stafell gysurus a llawn bywyd. Dwi'n troi'r lamp wrth fy ymyl ymlaen a dwi'n dringo i mewn i'r domen o flancedi dwi wedi'i osod ar y soffa. Yn digon buan ar ôl, mae'r trydan yn diffodd, yn union fel credais y byddai. Diolch byth roeddwn wedi meddwl ymlaen llaw a wedi gosod canhwyllau ar y bwrdd gyferbyn!

Mae'r stafell wedi'i oleuo yn hollol oren, yn adlewyrchu'r cynhesrwydd teimlaf tu mewn i mi. Dwi'n eistedd yma yn stond, yn gwrando'n ofalus ar y glaw trwm, parhaus. Am unwaith yn fy mywyd dwi'n ddiolchgar am y glaw a'r cysur mae'n darparu fi yn y ty di-symud, tawel.